



Mynediad

< Taflen y Tiwtor >

Ar y Map?

Perthynas â Chyrsiau CBAC

Cwrs Mynediad CBAC. Bydd yr ymarfer hwn yn addas ar ôl Uned 3.

Dull

Darperir map o Gymru â nifer o enwau lleoedd. Dylid rhoi copi i bob myfyriwr.

Darperir hefyd gyfres o gardiau sy'n nodi enwau lleoedd wedi'u treiglo – e.e. o Ddolgellau, o Lanelli. Dylid rhoi un cerdyn i bob myfyriwr.

Dylai pob myfyriwr grwydro a gofyn: 'O ble dych chi'n dod yn wreiddiol?'

Bydd yn derbyn ateb fel 'Dw i'n dod o Ddolgellau'. Mae wedyn yn chwilio am yr enw gwreiddiol ar y map (Dolgellau) ac yn ei dicio. Ymlaen wedyn at y person nesaf.

OND, mae dau le sy ddim ar y map. Tasg y myfyrwyr ydy darganfod pa ddau. Mae modd trafod eu lleoliad wedyn fel dosbarth.

Darperir 12 o gardiau. Os oes gennych chi lai na 12 yn y dosbarth, defnyddiwch y rhai ar ben y ddalen i ddechrau a gweithiwch i lawr. Os oes gennych chi fwy na 12, rhowch yr un cerdyn i fwy nag un.

Mae **Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwlllantysiliogogoch** yn debygol o godi yn y drafodaeth. Y cyfieithiad ydy: *St. Mary's Church in a hollow of the white hazel near to the rapid whirlpool and St. Tysil's Church of the red cave*

Un enw modern (2004) arall a fyddai o bosib yn ennyn diddordeb ydy: Llanhyfryddawelllehyanafolybarcudprindanfygythiadtruenusyrfhafnauole (Llanfynydd, Caerfyrddin).

Cyfieithiad: A quiet beautiful village; a historic place with rare kite under threat from wretched white blades (windmills)


Mae crefft y seiri enwau lleoedd yn parhau!



Mynediad

< Taflen y Myfyrwyr >

Ar y Map?





Mynediad

< Taflen y Myfyrwyr >

Ar y Map?



0 Lanfairpwll



0 Gaerfyrddin



0 Lyn-nedd



**0 Ddinas
Powys**



0 Dregaron



0 Dyddewi



0 Faentwrog



0 Lanidloes



0 Ddolgellau



0 Ddinbych



0 Landudno



0 Bontypridd

